

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Gwres Canolog

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Pob aelwyd	78,829		81,761		1,302,676		1,347,114		23,366,044		24,783,199	
Gwres Canolog												
Nid oes gwres canolog	1,821	2.3%	899	1.1%	29,534	2.3%	15,497	1.2%	624,095	2.7%	367,132	1.5%
Mae gwres canolog	77,008	97.7%	80,862	98.9%	1,273,142	97.7%	1,331,617	98.8%	22,741,949	97.3%	24,416,067	98.5%
Math o Wres												
Prif gyflenwad nwy yn unig	45,653	57.9%	44,413	54.3%	993,557	76.3%	964,685	71.6%	18,380,370	78.7%	18,298,725	73.8%
Nwy tanc neu botel yn unig			2,610	3.2%			27,590	2.0%			260,102	1.0%
Trydan yn unig	3608	4.58%	3,305	4.0%	72,176	5.5%	71,122	5.3%	1,900,765	8.1%	2,113,111	8.5%
Olew yn unig	20,194	25.6%	19,412	23.7%	113,984	8.7%	105,468	7.8%	962,129	4.1%	865,940	3.5%
Pren yn unig	3,363	4.27%	642	0.8%	24,987	1.9%	4,693	0.3%	174,681	0.7%	35,723	0.1%
Tanwydd solet yn unig			1,036	1.3%			7,491	0.6%			49,459	0.2%
Ynni adnewyddadwy yn unig	-	-	648	0.8%	-	-	6,336	0.5%	-	-	98,732	0.4%
Rhwydweithiau gwres ardal neu gymunedol yn unig	-	-	181	0.2%	-	-	4,369	0.3%	-	-	220,917	0.9%
Dau neu fwy o fathau o wres canolog (heb gynnwys ynni adnewyddadwy)	3,672	4.66%	7,732	9.5%	56,820	4.4%	124,065	9.2%	954,470	4.1%	2,113,325	8.5%
Dau neu fwy o fathau o wres canolog (gan gynnwys ynni adnewyddadwy)			637	0.8%			7,960	0.6%			134,652	0.5%
Gwres canolog arall yn unig	518	0.66%	246	0.3%	11,618	0.9%	7,838	0.6%	369,534	1.6%	225,381	0.9%

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022
Cynhyrwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Gaerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#)
E-bost: Data@sirgar.gov.uk

Dadansoddiad:

- Mae 1.1% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod heb wres canolog, er bod hyn wedi lleihau o 2.3% yn flaenorol. Mae hyn hefyd wedi lleihau yng Nghymru o 2.3% i 1.2% ac yng Nghymru a Lloegr o 2.7% i 1.5%.
- Gwres canolog nwy yw'r math uchaf o wres o hyd, er y cafwyd ychydig o ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, gyda 57.2% yn Sir Gaerfyrddin, ac mae hyn yn is o lawer na'r ganran yng Nghymru, gyda 73.6%, ac yng Nghymru a Lloegr, gyda 74.8%.
- Gwres canolog olew yw'r math uchaf ond un o wres yn Sir Gaerfyrddin, gyda 23.7%, ond mae'n uwch o lawer na'r ganran yng Nghymru (7.8%) ac yng Nghymru a Lloegr (3.5%).
- Am y tro cyntaf, mae'r cyfrifiad yn rhoi manylion am wres ynni adnewyddadwy ac mae gan 1.6% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin wres canolog ynni adnewyddadwy llawn neu gyfunol, o gymharu ag 1.1% yng Nghymru a 0.9% yng Nghymru a Lloegr.

Diffiniad:

Ystyrir bod gan lety aelwyd wres canolog os yw'n bresennol mewn rhai o'r ystafelloedd neu ym mhob ystafell (pa un a yw'n cael ei ddefnyddio neu beidio). Caiff gwres canolog ei ddsbarthu yn ôl math, er enghraifft, un neu fwy o'r mathau - nwy, trydan (gan gynnwys gwresogyddion storio), olew, tanwydd solet (er enghraifft, pren neu lo) neu fathau eraill (gan gynnwys ynni'r haul, nwy petrolewm hylifedig (LPG) neu nwy potel arall). Nid yw'r wybodaeth hon ar gael am lefydd aelwyd heb breswylwyr arferol.